

Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2021 Rhif 472



Eirlys Jones, Llywydd Treialon Cŵn Defaid
Rhyngwladol Ceredigion – tud 10

tud 3
Treiathlon

tud 7
Portreadau Arvid

tud 9
Gardd Carys

tud 10
Dan Do

Teulu Jenkins yn serennu

Un teulu sydd wedi cael tipyn o lwyddiant yn ddiweddar yw teulu Jenkins, Cerrigaranau. Yn ystod yr haf, buont yn cystadlu yn Sioe Laeth Rhithiol Bridwyr Aberystwyth a dod i'r brig gyda'r nifer uchaf o bwyntiau. Nododd y beirniad ei fod wedi mwynhau beirniadu'r gystadleuaeth yn fawr, gan fod y safon mor uchel. Gobeithir y bydd modd cynnal y digwyddiad yn flynyddol o hyn ymlaen.

Ar y 30ain o Fedi, mynychodd y teulu Wobrau Cyntaf Aber, digwyddiad a gynhaliwyd gan Fenter Aberystwyth i gydnabod holl waith caled unigolion a busnesau'r ardal. Roedd naw categori i gyd, ac fe ddaeth teulu



Jenkins i'r brig mewn dau ohonynt. Un o'r gwobrau hynny oedd un am hyrwyddo'r iaith Gymraeg, rhywbeth mae'r teulu yn ymfalchïo ynddo. Mae'n wych eu gweld yn derbyn cydnabyddiaeth am wneud hynny ac am ddathlu a chefnogi'r Gymraeg mewn sawl agwedd o fewn y gymuned.

Yr ail wobwr a enillwyd gan y teulu oedd y Wobr Werdd, sef gwobr sy'n dathlu mentrau gwyrdd yn y gymuned leol. Mae'n saff dweud bod y teulu wedi arbed miloedd o foteli plastig rhag cael eu defnyddio a'u taflu yn yr ardal, ac yn ein cynorthwyo ni i leihau ein hól-troed carbon.

Llongyfarchiadau gwresog i chi, a daliwch ati!



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Mair, Beryl a Betsan, gyda Ceri'n
dylunio. Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn
Tachwedd fydd Helen
(helen.iwan@btinternet.com) a Ceri
(stiwidio@ceri-talybont.com).

Cofiwch gysylltu â golygyddion y
mis mewn da bryd petai gyda chi
eitem o newyddion neu stori o
ddiddordeb lleol.

Y dyddiad cau yw 5 Tachwedd
a bydd y papur ar werth o
12 Tachwedd ymlaen.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



EGLWYSI CYNULLEIDFAOL
SEION, ABERYSTWYTH A BETHEL, TAL-Y-BONT

CYNHELIR CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU
GWILYM TUDUR

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD IESU GRIST

DDYDD SADWRN, 30 HYDREF, AM 2.00 P.M.

YN SEION, STRYD Y POPTY, ABERYSTWYTH

Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â chyfeillion Seion a Bethel ar yr
achlysur hwn.

Darperir lluniaeth yn Llety Parc, Llanbadarn wedi'r oedfa.
Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 bydd yn rhaid cofrestru eich
bwriad i fynychu'r oedfa.

Gwerthfawrogi'r petaech yn gwneud hyn, rhwng Hydref 12-26,
trwy gysylltu â:

Rhiannon Davies

E: Cemaes@btinternet.com

FF: 01970 615409

Gohebydd newydd

Cathryn Lloyd-Williams yw
gohebydd Papur Pawb
newydd Bont-goch. Cofiwch
anfon newyddion o'r ardal.
Diolch i Richard Huws am
ei holl waith yn ohebydd
trylwyr y gymuned dros sawl
blwyddyn.

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad yn
nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at
Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o
Papur Pawb.

Dyddiadur


HYDREF

- 10 Bethel** 10 Gwilym Tudur
12 Cymdeithas y Chwiorydd,
Rehoboth Dathlu 30
mlynedd
13 Cinio Henoed
Llangynfelyn 12
Wildfowler
Pwyllgor Rheoli'r Neuadd
7.30 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
20 Cletwr 7.30-9
Darlleniadau a llofnodi'r
llyfr gan Gwyn Jenkins
21 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch
24 Bethel 10 Geraint Evans
Rehoboth 11.15
Gweinidog
30 Seion, Aberystwyth 2
Cyfarfod Ordeinio a
Sefydlu Gwilym Tudur

TACHWEDD

- 7 Rehoboth** 2 Gweinidog
9 Cymdeithas y Chwiorydd,
Rehoboth 'Dod i adnabod
Syr O. M. Edwards' (Hazel
Walford Davies)

Cletwr Dydd Mawrth 1-4
'Clonc a Gweu'



Cofiwch bod y
clociau yn mynd nôl
awr ar y 31 Hydref

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292



10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Croeso i Niko

Llongyfarchiadau i deulu Mur Mawr, Talybont ar ddyfodiad ŵyr/nai, sef mab i Ainhwa ac Aleksa sy'n byw yn swydd Efrog. Croeso mawr i Niko bach.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Lea Sedgwick, Stryd Newydd, Tal-y-bont, yn ei swydd newydd gyda'r cyfreithwyr Morris & Bates, Aberystwyth.

Dathlu pen-blwyddi

Bu dathlu mawr yn Bont-goch wrth i Jonathan Karas, Yr Hen Ficerdy, Bont-goch, Mina Morel, Llawr y Glyn, Bont-goch, Neilson Stirling, Hafod Elerch, Bont-goch, Matt Young, Hirsitalo, Bontgoch, Llyr James, Llanerch a Geraint Lewis, gynt o York House, Tre'r Ddôl ddathlu pen-blwyddi arbennig yn ystod y mis!!

Llongyfarchiadau hefyd i Shelagh Hourahane, Gwêl-y-garn, Tre'r-ddôl a gafodd ben-blwydd arbennig ar 24ain Gorffennaf.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Siwan ac Elgan Evans, Pantcoch, ar enedigaeth Nela Haf Evans ar y 1af o Hydref a chwaer fach i Elsi a Magw. Llongyfarchiadau hefyd i Marion a Dilwyn, Tŷ Nant, ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y pumed tro ac i Dilwyn ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn fuan wedyn.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl ar teulu ar farwolaeth ei brawd Iwan yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont ar merched a gollodd chwaer yng nghyfraith a modryb sef Mrs Margaret Evans o Langeitho yn ddiweddar.

Gyda thristwch y clywsom am farwoaleth Mrs Anna Bradley, 1 Maes-y-deri, Tal-y-bont, priod Michael a mam Lauren a Siobhan.

Pobl a Phethe



Treiathlon Camlas Maldwyn

Llongyfarchiadau i Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin, Kath Edwards, Llys y Coed, Taliesin, Laura Hiscox, Ger y Plas, Tal-y-bont, Emma Parr-Davies, Llys-y-Wern, Bow Street a Cath Lloyd-Williams, Neuadd Bryn Glas, Bont-goch am gwblhau Treiathalon Camlas Maldwyn a chodi arian at apêl Afghanistan.



Cerdded i godi arian

Llongyfarchiadau i Sarah Lloyd-Williams, Moelgolomen ar gerdded 40 milltir mewn 12 awr i godi arian ar gyfer hosbis St Mary.



"Un ym mhob braich fyddwn ni'n gwneud fel arfer!"

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Betsan Siencyn, Tanrallt ar gael ei phenodi yn Uwch Swyddog Prosiectau gyda Menter Môn. Bydd Betsan yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Hydref, ac yn canolbwyntio ar gynllun Arloesi Gwynedd Wledig. Bu Betsan hefyd yn siaradwraig wadd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ar yr 2il o Hydref, ble bu'n trafod pwysigrwydd enwau hanesyddol tirluniau amaethyddol.

Antur fach

Ar ddechrau mis Medi, aeth Rhodri Lloyd-Williams, Helen Ovens a Rebecca Williams am antur fach- nofio i fyny ac i lawr y Dyfi, oedd yn 8Km i gyd. Gyda thywydd da a chyfeirdd ar fwrdd padlo yn darparu cefnogaeth, llwyddodd y tri i nofio'r 4km bob ffordd - gyda chymorth llanw - i fyny'r afon o Aberdyfi i Abertafol, ac yn ôl eto i Aberdyfi. Roedd nofio trwy'r cychod hwylio ac yna i fyny'r afon yn brofiad anhygoel, ac yn ffordd wych o brofi harddwch tirwedd yr aber.

Croeso

Croeso i Michelle a Jason a symudodd i Frondirion, Taliesin yn ystod yr haf eleni a llongyfarchiadau ar enedigaeth eu merch fach Mali yn fuan ar ôl hynny.

Croeso hefyd i Amy, Ifan a'u merch Sophie sydd newydd symud i hen gapel Soar. Braff gweld teulu yno ar ôl blynyddoedd o fod yn wag.

Ymdddeoliad

Llongyfarchiadau i Stephen Benham, Llanio, Llangynfelyn, sydd wedi ymdddeol o'i swydd fel archifydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gobeithio bydd amser sbâr ganddo nawr i ychwanegu at wefan hanes Llangynfelyn!

Symud Tŷ

Mae Alice, Lola a Sannan Morgan wedi symud o 3 Tanycoed i Avalon, Tal-y-bont. Dymuniadau gorau i chi.

Pob hapusrwydd i Sandra a Patrick Lavery sydd wedi symud i lawr y ffordd o Heulwen Haf i Banc y Felin, Tal-y-bont.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cofio am Martin Nelmes



Rhian, Ffon a Siôn Nelmes

Ar fore gwlyb ofnadwy, dechreuon ni ar ein taith gerdded nodeddig er cof am ŵr a thad arbennig. Bu farw Martin ym mis Mehefin 2020 o diwmor yr ymennydd. Ein nod oedd codi arian ar gyfer ymchwil i diwmorau'r ymennydd.

Cerddon ni o Dre'r Ddôl i Ddôl-y-bont, ymlaen i Landre a Dole i Dal-y-bont ac yna nôl adre - 20km i gyd. Cawsom gwmni teulu ar hyd y ffordd a chyfle i aros am hoe fach a bwyd hefyd gyda theulu yn Llandre a Bryngwyn Mawr.

Mae ystadegau tiwmorau'r ymennydd yn erchyll. Mae 88% o bobl sydd wedi cael diagnosis yn marw o fewn 5 mlynedd. Mae tiwmorau yr ymennydd yn lladd mwy o blant ac oedolion o dan 40 oed nag unrhyw gancr arall. Yn hanesyddol, dim ond 1% o'r gwariant cenedlaethol ar ymchwil i gancr sy'n cael ei wario ar ymchwil i diwmorau yr ymennydd.

Hyd yma, rydym wedi codi dros £1,500 tuag at elusen Brain Tumour Research.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu'n barod. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Protestio



Ar fore Sul 19 Medi cynhaliwyd protest yn Nhal-y-bont gan farchogion ceffylau.

Y nod oedd ceisio addysgu gyrwyr am y rheolau parthed ceffylau ar y ffordd fawr, e.e. na ddylid mynd heibio ceffyl ar gyflymdra o fwy na 15 milltir yr awr. Dosbarthwyd taflenni i'r gyrwyr ar y daith drwy'r pentref.



Cerrigaranau



Blwyddyn 3 a 4



Blwyddyn 3 a 4



Ysgol Iach – Wythnos Seiclo i'r Ysgol



Ysgol Iach – Wythnos Seiclo i'r Ysgol

Ysgol Tal-y-bont

Roedd dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwyliau haf yn gyfnod cyffrous. Ond er gwaethaf llacio'r cyfyngiadau'n gyffredinol o fewn y gymdeithas, newid pethau'n raddol yn ystod mis Medi oedd y cyngor i ysgolion. Erbyn diwedd y mis, roedd teimlad mwy normal o gwmpas y lle er ein bod yn dal i ddefnyddio llawer o ddiheintydd wrth olchi dwylo ac mae'r oedolion yn gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r plant bellach yn cael cinio efo'i gilydd ac yn bwysicach na dim yn gallu chware gyda'i gilydd ar yr iard.

Ysgol yn y Gymuned

Cerrigcaranau

Dros y blynnyddoedd rydym wedi derbyn croeso cynnes iawn ar fferm Cerrigcaranau gan y teulu Jenkins panfyddwn ni'n ymweld â nhw i ddysgu am ffermio organig. Ond y tro yma, ymweliad rhithiol a gafwyd i blant dosbarth Blwyddyn 5 a 6. Yn ogystal â chael ein tywys o gwmpas y fferm gan Sara, roedd hefyd yn gyfle i ddeall mwy am ffermio a'r diwydiant llaeth. Mae'r dosbarth wedi bod yn astudio data cynhyrchu llaeth un o'r gwartheg, ac er bod ganddi enw swyddogol crand, mae'r dosbarth wedi penderfynu ei galw'n Tatws!

Diolch yn fawr am bob cymorth dros yr wythnosau diwethaf gyda'r holl holi am wybodaeth a diolch arbennig am gael blasu'r llaeth organig a'r ysgythaeth blasus. Llongyfarchiadau mawr i chi am ennill gwobrau pwysig yn noson Menter Aberystwyth hefyd.

Blwyddyn 3 a 4

Mae Dosbarth Blwyddyn 3 a 4 wedi manteisio ar dywydd braf mis Medi i ddod i adnabod safle'r ysgol yn well ac wedi bod wrthi yn chwilio am infertebratau ymhob twll a chornel ac yn dilyn cliwiau mewn helfa drysor i ddarganfod atebion am y saith proses bywyd. Mae'n amlwg fod pawb wedi cael amser wrth eu boddau'n cyflawni'r gweithgareddau yma.

Cyfnod Sylfaen

Gyda'r llacio ar y cyfyngiadau yn ystod mis Medi, roedd dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen wedi trefnu taith o gwmpas Tal-y-bont i adnabod adeiladau a nodweddion pwysig y pentref. Roedd hi'n mor braf i deimlo'n rhan o'r gymuned unwaith eto, ac roedd y plant wrth eu boddau'n crwydro i weld Y Patshyn Glas, Y Lolfa, Capel Nazareth, Garej Davmor ac olwyn ddŵr ffatri wlân Ceulan. Roedd y plant wedi cael sioc o ddarganfod fod cymaint o siopau yn y pentref ar un adeg a dau fanc hefyd!

Rala Rwdins

Mae straeon Rala Rwdins bob amser yn cydio yn nychymyg plant y cyfnod sylfaen. Yn ogystal â gwrando'n astud ar y gwahanol straeon, maent wedi bod yn ymarfer sut i dynnu lluniau o'r cymeriadau a defnyddio deunydd wedi eu hailgylchu i adeiladu Castell Cnotiog newydd i Strempau!

Ysgol Iach – Wythnos Seiclo i'r Ysgol

Mae'n amlwg fod y plant wrth eu boddau'n cael dod â'u beiciau a'u sgwteri i'r ysgol ar achlysuron fel hyn. Mae'n ffordd wych o godi ymwybyddiaeth am gadw'n heini ac yn gyfle i bwysleisio pwysigrwydd teithio diogel i'r ysgol. Er gwaethaf y glaw, trefnwyd sesiynau hwylus i bawb ac roedd hi'n hyfryd gallu defnyddio'r llwybr beicio newydd a osodwyd gan aelodau o'r Gymdeithas Rien dros yr haf – diolch yn fawr am eich gwaith.

Newid Hinsawdd

Roedd hi'n hyfryd i weld gwaith plant yr ysgol yn rhan o arddangosfa yn Cletwr i dynnu sylw at newid hinsawdd. Roedd yn rhan o daith feicio o Aberystwyth i Fachynlleth o fewn Biosffer Dyfi. Siaradodd un o blant yr ysgol yn huawdl iawn am y peryglon o seiclo'n lleol ar newyddion S4C hefyd – da iawn ti Rosie.

Staffio

Hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs Leah Griffiths am ei gwaith yn yr ysgol dros y blynnyddoedd diwethaf a phob hwyl iddi yn ei swydd newydd yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen.

Croeso cynnes i Linsey Glover fel aelod newydd o staff hefyd. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n gartrefol yma gyda ni.

Sefydliad Y DPJ

Haia sut wyt ti?

Cwestiwn cyffredin iawn, un fyddwn yn defnyddio bron bob dydd i gyfarch rhywun.

Ydych chi'n gallu sylwi ar rywun o fewn eich cymuned chi os ydyn nhw yn cael trafferth gyda'i iechyd meddwl? A fydddech yn gallu adnabod person o fewn eich cymuned petai nhw'n mynd drwy gyfnod anodd? A fydddech chi yn gwybod be i'w wneud i'w helpu neu hyd yn oed be i ddweud wrthynt?

Mae **Sefydliad y DPJ** yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth

iechyd meddwl am ddim i gefnogi unrhyw un sy'n ffermio neu'n byw yn y gymuned wledig.



Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799 / ewch i www.thedpjfoundation.co.uk

Mae ein llinell ffôn a gwasanaeth neges testun, 'Rhannwch Y Baich', yn gwbwl gyfrinachol ac yn cael ei redeg gan ein gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i allu eich helpu.

Mae cwnselydd yn cysylltu â'r rhai sy'n galw o fewn 48 awr ac yn cael eu gweld o fewn wythnos.

Estynwch allan at y rhai sydd efallai yn mynd drwy gyfnod anodd, gall eich caredigrwydd wneud gwahaniaeth ym mywyd rhywun.



**Am
GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Medi 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol Mis Medi yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ar Nos Iau, 30 Medi 2021, gyda saith o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Estynnodd y Cadeirydd, Cyng. Megan Mai, groeso cynnes i bawb.

Ymddiswyddiad y Clerc

Cychwynnodd y cyfarfod gyda datganiad gan y Clerc, Mr Rab Jones, ei fod yn bwriadu sefyll i lawr fel Clerc i'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd ei fod yn fodlon parhau yn y swydd nes bod y Cyngor wedi llwyddo i gael Clerc newydd a diolchwyd iddo am ei wasanaeth.

Cae Bach Tal-y-bont

Mynegwyd siom gan y Cyng. Nia Richards fod un o'r byrddau picnic newydd wedi cael difrod yn ystod yr haf ond cadarnhaodd fod y bwrdd wedi cael ei drwsio erbyn hyn gan Mr John Evans.

Nodwyd hefyd fod y botel hylif diheintio ger y gât fach wedi diflannu unwaith eto. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gosod un arall yno gan fod un ar gael wrth y gât dop a phawb erbyn hyn yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud.

Sefyllfa Coronafeirws

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng. Ellen ap Gwynn, ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda coronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod y nifer o bobl yn y Sir gyda coronafeirws yn parhau i gynyddu ar hyn o bryd a bod yn bwysig fod pawb yn parhau i fod yn ofalus.

Mynwent Capel Nazareth

Hysbysodd y Cyng. Nia Richards y bydd llythyr at y Cyngor yn dod oddi wrth Capel Nazareth ynglŷn â threfniadau i gynnal a chadw'r fynwent yn y dyfodol.

Arwyddion newydd ar Allt y Crib

Darllenodd y Clerc e-bost oddi wrth Mrs Mair Nutting yn dod a sylw'r Cyngor i ddau arwydd newydd ar Allt y Crib sydd yn cynnwys camsillafiad o'r enw. Cytunwyd i gysylltu gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt gywiro'r arwyddion.

Baw cŵn ar y Patchyn Glas

Mynegwyd pryder am y cynnydd yn y problemau gyda baw cŵn ar y patchyn glas. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi arwyddion yn gwahardd cŵn ar y Patchyn Glas.

Materion Ffyrdd

Darllenodd y Clerc e-bost oddi wrth y Cyngor Sir yn nodi y bydd ffordd Tan y Coed yn Nhal-y-bont yn cau yn ystod y dydd o 11 Hydref hyd at 15 Hydref ar gyfer gwaith ar y biben nwy. Cytunwyd rhoi copi o'r e-bost ar yr hysbysfwrdd.

Seremoni Sul y Cofio

Trafodwyd y trefniadau tuag at Sul y Cofio. Y gobaith ydy cynnal y gwasanaeth arferol yn y Neuadd Goffa ond cytunwyd y bydd rhaid cadw golwg ar y sefyllfa o ran coronafeirws cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180

Geirfa Dysgwyr

Serennu: Starring
Cymuned: Community
Hinsawdd: environment
Rhyngwladol: International

Cletwr


Fel llawer sy'n gweithio yn y busnes lletygarwch ar hyn o bryd, mae gan Cletwr brinder staff sylweddol. Yn ddiweddar, mae sawl un o'n staff wedi symud ymlaen i heriau newydd (neu ymddeol!)

Rydym yn cymryd hwn fel cyfle i adolygu ble'r ydym a beth yr ydym am fod, a phenderfynu sut y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'n cymuned. Fel menter gymdeithasol, rydym yn gwasanaethu ein cymuned ac nid ydym am gau ein busnes oherwydd prinder staff. Mae ein siop yn bwysig iawn i'r gymuned, ac rydym yn teimlo bod rhaid i hyn barhau. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod hwn i feithrin ysbryd cymunedol trwy ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ddod ynghyd â digwyddiadau, adloniant, a grwpiau newydd mewn amgylchedd cyfarwydd a diogel.

Y caffi yw'r peth yr effeithir arni fwyaf: am y tro byddwn ond yn cynnig gwasanaeth tecawê - brechdanau, cacennau, a diodydd poeth ac oer - yn ystod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae croeso i gwsmeriaid ddefnyddio ein seddi allanol. Bydd dydd Sadwrn a dydd Sul yn cynnwys bwydlen newidiol o brydau poeth a seddi y tu mewn, gyda rhai o ffefrynnau ein cwsmeriaid.

Un budd uniongyrchol o'r newidiadau yw y gallwn ddefnyddio ein gofod caffi i gynnig ystod ehangach o ddigwyddiadau a gweithgareddau, yn enwedig yn ystod yr wythnos. Nawr bod y cyfyngiadau wedi cael eu llacio, mae Rachel wedi bod yn brysur yn trefnu pethau i bawb.

Cawsom barti llwyddiannus iawn yn ddiweddar, gyda dau fand byw tu allan. Mae'r grŵp Clonc a Gweu wedi ailgychwyn, mae gennym deithiau cerdded, cerfio pwmpen a lansiadau llyfrau yn y dyfodol agos. Edrychwch ar ein tudalen Facebook am fanylion. Pe hoffech drefnu digwyddiad yn Cletwr, cysylltwch â Rachel.



Mae Cletwr wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar am y gwaith rydyn ni'n ei wneud: mynychodd Karen a James seremoni wobrwyo Menter Aberystwyth, lle cafodd Cletwr ei ganmol yn uchel, fel yr oedd Sylvie am ei gwaith gyda'r grŵp 'Dal Ati'. Mae ein grŵp garddio hefyd wedi cael ei gydnabod am eu gwaith ar greu amgylchedd 'Cyfeillgar i Wenyn'.

Felly, mae Cletwr dal ar agor, ac yn ffynnu, er gwaethaf Cofid. Mae'r silffoedd yn llawn (ond mae'r hen danciau petrol dal yn wag!). Croesawn wirfoddolwyr a chwsmeriaid newydd. Os am wirfoddoli, cysylltwch â ni ar unwaith. Mae'n gyfle bendigedig.

Cletwr

'A WELSH COUNTY AT WAR'

GAN

GWYN JENKINS

Darlleniadau a llofnodi'r llyfr
gan awdur o Dalybont

20.10.2021 19.30 - 21.00

01970 832 113 ✉ events@cletwr.com

ESSAYS ON CEREDIGION AT THE
TIME OF THE FIRST WORLD WAR

Portreadau Arvid



Bydd rhai o drigolion hŷn Tal-y-bont yn cofio Mrs Beresford a oedd yn byw yn Banc-y-felin blynnyddoedd lawer yn ôl bellach. Go brin y byddai hithau'n adnabod ei hen gartref fel ag y mae heddiw. Fe aeth Arvid draw i dynnu ffotograff o Mrs Beresford i gydfynd a'r erthygl canlynol a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd 1987 o Bapur Pawb:

'Ers saith. mlynedd bellach bu Mrs L.M. Beresford, Banc-y-felin yn dioddef o'r afiechyd blin 'osteoarthritis' gan ei chaethiwo i'w chartref am gyfnodau hir. Yn ddigon naturiol bu hyn yn ofid mawr i'w merch Claire a'i theulu draw yn Hong Kong. Ond un diwrnod daeth mab yng nghyfraith Mrs Beresford ar draws hysbyseb gan yr elusen 'Help the Aged' yn y papur dyddiol y 'Telegraph'. Ynddo roedd disgrifiad o sustem larwm arbennig gogyfer a'r rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi ac sy'n eu galluogi i alw am gymorth ar frys. 'Lifeline' Heb oedi, cysylltodd ei theulu a phencadlys yr elusen yn Llundain ac anfonwyd y manylion ymlaen i Mrs Beresford. Ffon arbennig yw'r uned 'Lifeline' fel y'i gelwir, sy'n cysylltu Mrs Beresford yn syth a'i meddyg, ei merch neu a'i chymdogion caredig Mr a Mrs Griffiths, Glanleri, dim ond iddi bwyso botwm coch. Yn ogystal a'r teclyn cysylltu y mae Mrs Beresford yn gwisgo larwm ar ffurf cadwyn sy'n hongian o amgylch ei gwddf, a phetai hi'n cwmpo neu'n methu a chyrraedd y ffon arbennig yna gall bwyso'r botwm a bydd cymorth ar ei ffordd iddi'n syth. Yn anffodus y mae'r uned 'Lifeline' yn costio oddeutu £400 i'w 'fenthg' ac ymhell o gyrraedd nifer o bensiynwyr. Ond y mae gan yr elusen gytundeb arbennig a'r Llenng Brydeinig ac y mae'n bosibl i henoed sydd, fel yn achos Mrs Beresford, yn weddw i un fu'n gwasanaethu yn y Llynges yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gael yr uned larwm am ddim ond y gost o'i gysylltu i'w cartref. Y mae nifer o awdurdodau lleol hefyd yn cydweithio a'r Gymdeithas ond yn anffodus nid yw Ceredigion hyd yn hyn. Mrs Beresford yw'r gyntaf yng Ngheredigion i fanteisio ar y cynllun yma ac y mae'n ddiolchgar iawn i swyddogion y Llenng Brydeinig am ei chynorthwyo gyda'r trefniadau. Braf iawn yw gweld Mrs Beresford yn llwyddo i gerdded o amgylch y pentre unwaith eto a dymunwn yn dda iddi a gwell iechyd yn y dyfodol.'

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch



Er mawr lawenydd i'r aelodau, daeth y gangen ynghyd unwaith yn rhagor ar nos Iau, 16 Medi yn y Neuadd Goffa gan gadw at ganllawiau Covid-19. Wrth groesawu pawb, cydymdeimlwyd â thair aelod oedd wedi colli aelodau agos o'r teulu, cyn symud ymlaen i drafod y pecyn gwybodaeth a ddaeth o swyddfa Merched y Wawr.

Ein gwsteion oedd Prifardd Eisteddfod Amgen 2021, Gwenallt Llwyd Ifan a'i wraig Delyth. Dylanwad a phŵer geiriau i greu darluniau oedd themar noson a darllenodd Delyth delyneg hyfryd o'i gwaith ei hun, oedd yn deyrnged i'w mam sydd yn dioddef o dementia. Cawsom flas arbennig hefyd wrth wrando ar Gwenallt yn darllen rhai o'r cerddi o'i gyfrol gyntaf o farddoniaeth, DNA, a gyhoeddwyd ddechrau'r flwyddyn, ynghyd â rhannau o'i awdl fuddugol 'Deffro'.

I gloi'r noson cafwyd hwyl wrth wrando ar y limrigau a oedd yn cynnwys y llinell osod 'Medd rhai mai'r dyfodol yw zoomio' a gyfansoddwyd gan yr aelodau ac ym marn Delyth a Gwenallt limrig Eryl Evans a ddaeth i'r brig!

Mwynhawyd paned a chlonc cyn troi am adre. Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar nos Iau, 21 Hydref pan fyddwn yn troedio i fyd Adweitheg yng nghwmni Eiry Evans.

Croeso cynnes i aelodau newydd.

Dyma'r limrig buddugol gan Eryl Evans:

Medd rhai mai'r dyfodol yw zoomio,
Cael pwyllgor neu bregeth heb deithio.
Bendithiol, yn wir,
Petai'r Parch yn rhy hir
Yw'r botwm bach slei sy'n ei fudo.

Dyma un arall:

Medd rhai mai'r dyfodol yw zoomio,
Ac eraill yn hoffi "What's Appio",
Naw wfft i'r fath ddwli,
Does dim yn rhagori
Ar gwmni y postmon pan ddaw o!

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703582

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk



Beicwyr mentrus yn cyrraedd Cletwr (llun: Heledd Wyn)

Ein Cymuned, Ein Hinsawdd – beicio saffach a newid yn yr hinsawdd

Bu dros ddau gant o bobl yn mwynhau prynhawn heulog ar dir y Plas ddydd Sul 19 Medi, yn rhoi cynnig ar feiciau a cheir trydan, yn chwilota am drychfilod ac yn dod i gysylltiad â beicio diogel, bwyd lleol, iechyd, newid yn yr hinsawdd a materion cymunedol eraill wrth y stondinau ar y lawnt.

Penllanw oedd “Ein Cymuned, Ein Hinsawdd” yn nodi y perygl a’r anawsterau wrth symud rhwng pentrefi ar hyd y coridor teithio rhwng Aberystwyth a Machynlleth heb orfod defnyddio cerbydau.

Bu’r diwrnod yn dynodi cychwyn cyfnod newydd mewn ymgyrchoedd hirfaith dros ddiogelwch ar y ffyrdd. Fel a nododd Ellen ap Gwynn yn y digwyddiad yn y Cletwr, mae’n ymgyrchu dros hyn ers iddi gael ei hethol i’r Cyngor Sir ryw 20 mlynedd yn ôl.

Roedd y digwyddiadau cymunedol yn cyd-ddigwydd â dechrau taith cerbydau trydan drwy ganolbarth a gogledd Cymru gan Hinsawdd Cymru fel rhan o’r ‘Wythnos Werdd Fawr’. Buont yn casglu straeon pobl a’u negeseuon am y dirfawr angen i’r llywodraeth weithredu ar newid yn yr hinsawdd, gan eu hanfon i’r digwyddiad hinsawdd rhyngwladol hollbwysig, COP26, ym mis Tachwedd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Andy Rowland, Trefnydd ecodyfi ar 01654 703964

Colectif TAIR yn cael eu dewis fel Artistiaid Preswyl O’r Mynydd i’r Môr fel rhan o’r rhaglen Preswyliadau Artist Tirweddau mewn Perygl



Mae O’r Mynydd i’r Môr yn falch iawn o gyflwyno colectif TAIR, sy’n cynnwys artistiaid Cymreig- Manon Awst, Beth Celyn a Judith Musker Turner, fel artistiaid preswyl O’r Mynydd i’r Môr fel rhan o’r rhaglen Preswyliadau Artist Tirweddau mewn Perygl.

Bydd TAIR yn cydweithio’n agos gydag O’r Mynydd i’r Môr i gefnogi’r prosiect yng nghyfnod archwilio cyfredol y broses gyd-ddylunio. Byddant yn cyflwyno prosiect celfyddydau cyfranogol a fydd yn defnyddio’r celfyddydau i sicrhau fod pobl a chymunedau sy’n rhan o’r prosiect yn teimlo fel bod eu lleisiau’n cael eu clywed a bod eu safbwyntiau’n cael eu cynrychioli.

Maent yn bwriadu creu gwaith celf amlgyfrwng gan ddefnyddio deunyddiau a gasglwyd gan a chydychymunedau gan gasglu straeon a thystiolaethau ar hyd y ffordd a fyddant yn cael eu datblygu’n ddarn perfformio amlgyfrwng i’w deithio o fewn ardal y prosiect.

Cynhaliwyd sawl sesiwn gychwynnol ym Machynlleth ac Aberystwyth dros y misoedd diwethaf, a bydd manylion am y sesiynau nesaf yn dilyn yn fuan.

BRO ABER 360

Shwmai bawb – gobeithio eich bod i gyd yn cadw’n iawn. Dyma’r golofn gyntaf i mi sgwennu mewn sbel, ac mae di bod yn gyfnod prysur iawn ar BroAber360. Cynhaliwyd y Gŵyl Bro gyntaf erioed, hefo dros 20 o ddigwyddiadau yn cael ei chynnal drwy Geredigion ac Arfon i ddathlu ein cymunedau. Mae llwyth o straeon newydd, diddorol, aml-gyfrwng gan bobol, fudiadau a sefydliadau’r fro ar gael i chi weld ar y wefan ar y funud. Rydym hefyd wedi lansio calendr newydd sbon Bro360, a gallwch weld digwyddiadau lleol drwy fynd i BroAber360, ac i’r tab Digwyddiadau. Mae’n wirioneddol hawdd defnyddio er mwyn hyrwyddo eich digwyddiad, felly pam ddim rhoi gynnig arni?

Daniel Johnson

Cyrol newydd Archaeolegydd Lleol



Mae’r archaeolegydd lleol, Dr Toby Driver o Bont-goch, wedi rhyddhau rhifyn newydd o’i lyfr Bryngaerau Bae Aberteifi - Hillforts of Cardigan Bay (uniaith Saesneg). Mae Toby yn archaeolegydd awyr gyda Chomisiwn Brenhinol Cymru, ac mae wedi ysgrifennu a darlithio’n eang am archaeoleg a chaerau brynau Cymru. Mae’r llyfr yn arddangos archaeoleg cyn hanesyddol a Rhufeinig Ceredigion a Gorllewin Cymru.

Mae’r llyfr yn edrych ar effaith y goncwest Rufeinig ar y rhanbarth hwn o orllewin Cymru, yn tywys darllenwyr trwy’r oesoedd cerrig ac efydd, gan edrych ar gynnydd Bryngaerau Celtaidd yr Oes Haearn. Gyda lluniau wedi’u cyflwyno’n hyfryd a ffotograffau o’r awyr a’r ddaear, golygfeydd drôn a dyluniadau wedi’u hail-greu gan yr awdur, mae’r llyfr yn ffordd hawdd i ddarganfod miloedd o flynyddoedd o hanes Ceredigion.

Bu rhai darganfyddiadau enwog, gan gynnwys tarian efydd o Flaenplwyf, llwyau proffwydol dewiniaeth Geltaidd ddigel o Gastell Nadolig, darganfyddiad 2018 o gerbyd Rhufeinig ‘chariot’ wedi ei gladdu yn Sir Benfro, a hyd yn oed y fila Rufeinig yn Abermagwr.

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Gardd Carys



Etifeddais fy hoffter o flodau a garddio oddi wrth Mam a Mam-gu. Pan oeddwn yn blentyn roedd gennyf ardd fach fy hunan yn fy nghartref yn y Bungalow, Bont-goch, a rhoddai bleser mawr i mi wrth dyfu blodau, dysgu eu henwau, ac adnabod y chwyn. Felly, rwyf wedi bod yn garddio erioed, ond dim ond tyfu blodau.

Ers i mi ymddeol bedair blynedd ar ddeg yn ôl rwy'n treulio llawer iawn o amser yn yr ardd, ac mae'r border blodau wedi mynd yn fwy ac yn fwy, a maint y lawnt wedi lleihau'n sylweddol! Pob math o flodau lluosflwydd sydd yn yr ardd gan fwyaf gan fod rheiny yn blodeuo o ddechrau'r haf hyd at yr hydref, a gan eu bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn mae'n golygu fod llai o waith chwynnu i'w wneud. Dros y blynyddoedd bwm yn lwcus i gael gwreiddyn amryw o'r planhigion sydd gennyf gan deulu a ffrindiau.

Rwyf wrth fy modd yn cerdded o amgylch yr ardd gan fod rhywbeth newydd i'w weld bob dydd – pan fo un planhigyn yn dechrau blodeuo mae'n cymryd lle planhigyn arall sydd ar fin darvoud am y tymor. Hefyd mae'n hyfryd gweld y lliwiau yn newid o dymor i dymor, gyda blodau glas a phinc gan amlaf yn y gwanwyn yn newid wedyn i liwiau cynnes fel coch, oren, melyn a phorffor ar ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref. Er i ni gael tywydd oer a rhewllyd ym mis Mai eleni gwnaeth pob peth yn yr ardd ffynnu wedi hynny, a'r delia wedi blodeuo'n arbennig o dda. Mae'r blodau a'u gwahanol liwiau wedi llenwi'r borderi drwy'r haf, yn ogystal ag yn y basgedi crog, y bocsys ffenestri a'r potiau sydd ymhob man o amgylch y tŷ! Felly, gan fod golwg mor dda ar yr ardd ym mis Gorffennaf penderfynais dynnu lluniau ohoni a'u hanfon i'r gystadleuaeth ar y rhaglen 'Garddio a Mwy' ar S4C. Bythefnos ar ôl y dyddiad cau cefais syndod i dderbyn e-bost yn dweud fy mod wedi ennill ac y byddent yn dod yma ymhen tridiau i ffilmio! Rhannais y gyfrinach gydag Iwan ac roedd mor falch o'm llwyddiant, ond yn anffodus ni chafodd fyw i weld y rhaglen ar y teledu.

Er y gwaith caled, nid oes dim yn rhoi mwy o bleser i mi nag eistedd allan yn yr ardd yn edrych ar y cyfan, gwrando ar yr adar yn canu ac yn bwydo o'r bwrdd adar, a sylwi ar yr holl bryfaid, y gwenyn a ieir bach yr haf yn hedfan o un blodyn i'r llall – byd natur ar ei orau.

Carys Briddon

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn
Cletwr,
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerrigaranau Lychaf

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Penderfynwyd ail gychwyn gweithgareddau Cymdeithas y Chwiorydd eleni ar ôl inni fethu â chwrdd yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf. I ddechrau'r tymor, aeth deg o'r aelodau i Grefftau Pennau, Rhydypennau, ar brynhawn Mawrth, 14 Medi, i fwynhau te prynhawn hyfryd. Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i bawb, gan ddweud mor braf oedd cael cwrdd â'n gilydd unwaith eto. Bu sgwrsio brwd yn ystod y prynhawn a phawb wedi mwynhau'r achlysur, gan obeithio bydd modd i ni gynnal cyfarfodydd yn ddidrafferth yn ystod y misoedd nesaf.

Y Gair Olaf



Fel seiclwr a rhedwr achlysurol, mae llawer iawn o fy egni i y dyddie hyn yn mynd i osgoi'r pla rhyfeddol o gŵn sy'n britho llwybrau Cymru y dyddie hyn. Dwi wedi cael fy nghnoi ddwywaith, yn fwyaf annisgwyl a phoenus gan gi rhech ar Braich Garw.

Gyda'r hwyr wedyn dwi'n ochneidio bob tro dwi'n clywed cyfarthiadau cŵn sydd yn amlwg angen mwy o sylw gan berchnogion sydd nawr siŵr o fod yn difaru gwario cymaint o arian arnyh nhw.

Does gen i ddim ond parch i gŵn sy'n helpu'r deillion a chŵn defaid yn eu hamgylchiadau cywir, ond dwi'n ei gweld yn rhyfedd a phryderus gweld obsesiwn yr oes hon gyda chŵn, ac yn poeni amdanyh nhw nawr fod y perchnogion yn dechre cael llond bol ar eu gwarchod.

Beth am bobl sydd ag alergedd i gŵn? Neu bobl fel fi sy'n casáu delio gyda'r baw ffiaidd a'r bagiau plastig yna a'u cynnwys gwenwynig ar holl lwybrau'r wlad. A pham na all pobl amgyffred fod na bobl sydd ddim yn mwynhau bod yn eu cwmni? Dwi ddim ishe mynd i dafarn a rhannu fy mwrdd gyda chi sy'n slochian ei ddŵr a thrio llyfu fy nghoes, mwy na dwi ishe mynd i gaffi a chael ci yn neidio lan i synhwyro fy nghacen.

Onid yw hi'n bryd ailddechrau trwyddedu cŵn unwaith eto? Fuodd yna hysbyseb unwaith yn rhybuddio pobl nad oedd cŵn ar gyfer Nadolig yn unig – piti na fydde rhywun wedi cael yr un syniad o rybuddio pobl nad ydyn nhw chwaith ar gyfer pandemig yn unig.

Lefi Gruffudd

Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn i bwyllgor Cymdeithas Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion ac er yr amgylchiadau anodd iawn a achosodd i'r digwyddiad gael ei ohirio llynedd, derbyniodd y pwyllgor y sialens yn frwdfrydig.

Cynhaliwyd y treialon eleni ar dir Eirlys Jones, Ynyshir, Eglwysfach a'r teulu yn Nghanycastell, Aberystwyth am dri diwrnod, rhwng 10-12fed o Fedi ac Eirlys gafodd y fraint o fod yn Llywydd y Treialon Rhyngwladol.

Roedd pedwar tîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y treialon, sef tîm o'r pymtheg bugail gorau o fewn eu gwlad yn y Deyrnas Gyfunol. Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont oedd un o'r bugeiliaid hynny a ddewiswyd i gynrychioli tîm Cymru, ar ôl gorffen yn y deg uchaf yn y Treialon Cenedlaethol ym mis Awst. Daeth yn bedwerydd gyda'i gi Jock, a chweched gyda Tyngraig Cadi, a olyga bod y ddau gi yn rhan o'r tîm cenedlaethol a fuodd yn cystadlu yn erbyn 60 o gŵn eraill yn Nghanycastell.

Cynhaliwyd y rowndiau rhagbrofol ar y ddau ddiwrnod cyntaf yno, cyn symud ymlaen at y rownd derfynol ar y diwrnod olaf. Yn y rowndiau rhagbrofol, bu'n rhaid i'r bugail a'i gi gydweithio er mwyn symud pum dafad o gwmpas y cwrs. Roedd saith cydran i'r cwrs, gan gynnwys gyrru'r defaid trwy lidiardau, gwahanu dwy dafad heb goler o'r tair â choler, cyn eu huno mewn corlan ar ddiwedd y cwrs. Byddai'r bugail yn derbyn marciau am bob un o'r cydrannau hyn, ac yn gallu ennill uchafswm o 440 marc gan y pedwar beirniad. Felly'r nod yw colli'r cyn lleied o farciau ag sy'n bosib er mwyn ennill y marc uchaf i ddod i'r brig.

Bu Dewi'n cystadlu ar yr ail ddiwrnod- yn gyntaf gyda Tyngraig Cadi, a enillodd 345 o farciau, ac yna gyda Jock, a enillodd 383 o farciau. Gweithiodd y ddau gi yn arbennig o dda, a gan fod Jock yn y pymtheg uchaf, aeth ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ar y trydydd diwrnod. Y tro hwn, roedd gan y cystadleuwyr gwrs tipyn anoddach i'w redeg, ac felly'n cael hanner awr i geisio ei gwblhau ac ennill uchafswm o 680 o farciau. Yn gyntaf, danfonwyd y ci ar y rhediad cyntaf i godi deg dafad a'u cyrchu trwy lidiardau at bolyn. Danfonwyd y ci yn ôl i godi deg dafad arall yn yr un ffordd, fel bod y ddau grŵp yn cael eu huno wrth y polyn. Gyrrwyd yr holl ddefaid gyda'i gilydd o amgylch y cwrs, cyn didoli pymtheg dafad heb goler, a chorlannu'r pump gyda choler.

Cafodd Dewi hwyl arbennig, ac fe lwyddodd i ddod yn wythfed gyda 511 o farciau-tipyn o gamp. Roedd pedwar bugail arall o Gymru yn y rownd derfynol, ac fe ddaethant yn ail fel tîm. Llongyfarchiadau i Tom O'Sullivan a thîm Iwerddon am ddod i'r brig.

Betsan Siencyn



Dewi wedi iddo gystadlu gyda Jock

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Dan Do



Neuadd Bryn Glas - Hen Dafarn ar Fryn?

Yn ôl llyfr diddorol Richard Huws (Enwau tai a ffermydd Bont-Goch (Elerch), Ceredigion), y cyfeiriad cynharaf at Neuadd Bryn Glas oedd yn 1563/64 fel Tyddyn y bryn glas.

Cofnodir y tŷ fel fferm o tua 168 erw yn 1881, ond erbyn diwedd y ganrif disgrifir gwaith y deiliad fel mwynwr. Mae traddodiad lleol yn nodi bod yr adeilad wedi gweithredu fel tafarn i'r mwynwyr ar un adeg, ond yn anffodus nid oes tystiolaeth ar gael i gefnogi hyn.

Mae'n debyg bod neb wedi byw yno ers y 1940egau tan i Cath (merch fferm Moelgolomen, lle lleolir Neuadd Bryn Glas) a'i gŵr Cynrig benderfynu adnewyddu'r adfail yn 2016.

Roedd rhaid i'r pensaer Iwan Jones sicrhau bod y tŷ newydd yn dilyn olion a chymeriad y tŷ gwreiddiol er mwyn ennill y cais cynllunio. Yn ystod gwaith adeiladu Shaun Byrne a'i griw talentog, fe gafodd nifer o fanylion gwreiddiol eu cadw gan gynnwys carreg y drws, a rhai o'r fflacs o lawr y gegin a gafodd eu darganfod wrth glirio'r adfail.

Roedd rhan o'r wal flaen a thalcen y tŷ yn dal i fodoli a chadwyd y rhain fel rhan o'r adeilad. Defnyddiwyd cerrig i gyd-fynd a'r waliau gwreiddiol i orchuddio blaen a thalcen y tŷ, a llarwydden i orchuddio'r cefn.

Erbyn hyn mae'r teulu wedi bod yn byw yn Neuadd Bryn Glas ers 2019. Tybed beth fyddai'r mwynwr yn meddwl o'i hen dafarn erbyn hyn?



Pobl Ceredigion a'r Rhyfel Byd Cyntaf


Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *A Welsh County at War*, mae Gwyn Jenkins yn cyfeirio at sylw a wnaed yn anterth y rhyfel byd cyntaf gan y bardd a'r ysgolhaig, T. Gwynn Jones, sef mor ddiddorol fyddai dychwelyd i'r ddaear ymhen canrif i ddarllen am un o'r trychinebau mwyaf yn hanes y byd. Mae'n anodd credu y byddai wedi rhagweld pa mor lewyrchus fyddai'r diwydiant llyfrau erbyn hynny, wrth i filoedd o deitlau am y rhyfel lanio ar sillfoedd siopau llyfrau. Eisoes mae Gwyn yn ei gyfrol Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf, sef astudiaeth gynhwysfawr o'r rhyfel o bersbectif Cymraeg a Chymreig, wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i'r hanes. Mae'n deg holi felly pa ddiben sydd i ychwanegu teitl arall at y toreth sydd eisoes ar gael.

Yn hytrach nag adrodd am frwydrau mawr y rhyfel ac amodau truenus y milwyr, canolbwytia'r gyfrol ar ddarlunio'r gymdeithas yng Ngheredigion a'r effaith gafodd y rhyfel ar gymunedau a thrigolion y sir. Gwneir hyn trwy gyfres o ysgrifau thematig, megis profiadau teuluoedd yn ystod y rhyfel a'r newidiadau yn addysg yr ysgolion. Rhoddir sylw hefyd i'r tensiynau rhwng y rhai a gefnogai'r ymladd a'r rhai oedd am weld datrys y gwahaniaethau trwy gyflafareddiad. Mae'r gwahaniaeth rhwng safbwynt dau gyfaill agos at y rhyfel – sef y Parchg. R. J. Rees, gweinidog y Tabernacl, Aberystwyth a T. Gwynn Jones – yn crisialu dau begwn ymateb yr eglwysi Anghydffurfiol. Mewn pennod arall, ceir adroddiad o gynddaredd wrth-Almaenig pan erlidiwyd Dr Ethe, Athro Ieithoedd yng Ngholeg Aberystwyth ers deugain mlynedd, a'i wraig, o'r dref gan dyrfa hynod o fygythiol a hynny am eu bod yn hanu o'r Almaen. Dysgwn hefyd am y gagendor rhwng ymateb brwd bechgyn ifanc trefi'r sir ar y naill law, ac ymateb llugoer mwyafrif eu cyfoedion yng nghefn gwlad, i'r ymgyrchoedd recriwtio ar ddechrau'r rhyfel.

Wrth gloi, dychwelaf at y cwestiwn a holais ar y cychwyn, sef a oes diben cyhoeddi rhagor o lyfrau am y rhyfel byd cyntaf? Wedi darllen y gyfrol hynod ddarlennadwy a dadlennol hon, gallaf yn sicr ateb yn gadarnhaol. Bydd y cyfraniad yn werthfawr i bawb sy'n ymddiddori yn yr effaith gafodd y rhyfel ar bobl gyffredin, ac i'r sawl sy'n awyddus i ddysgu rhagor am hanes Ceredigion a'i chymunedau. Mae'r ffynonellau niferus a ddefnyddir – yn archifau, papurau newydd, adroddiadau swyddogol a gwefannau – yn brawf o drylwyrdd yr ymchwili. Wrth gribinio'r ffynonellau mor fanwl, llwyddwyd i ddod ar draws toreth o fanylion fydd yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o'r cyfnod ac o bobl Ceredigion sydd, fel trigolion y sir dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi wynebu amodau enbydus. Pwy feddyliai, er enghraifft, y câi un ffermwr ei gosbi gan Lys Tal-y-bont am gynnu tân ar y figin wedi iddi nosi, gan y gallai ddenu'r gelyn i lanio yn Ynys Las, a bod plant ysgolion ardal *Papur Pawb* wedi casglu yn agos i 10,000 o wyau i'w hanfon i ysbytai milwrol?

Yr awydd i ysgrifennu am ei bobl ei hun, sef trigolion Ceredigion, oedd yr ysgogiad i lunio'r gwaith, ac mae'n briodol iawn felly mai Banc Bwyd Penparcau, y pentref lle magwyd Gwyn, fydd yn derbyn y breindaliadau o werthiant y llyfr. Diolch, felly, am gymwynas ddwbl!

GH



Clwb Ffermwyr Ifanc Talybont

Ar ôl blwyddyn a hanner anodd i Fudiad y Ffermwyr Ifanc o ganlyniad i'r pandemig, mae Clwb Tal-y-bont wedi ail afael ym mhethau y mis yma drwy benodi swyddogion newydd sef Sara ac Alwenna Jenkins fel Cadeiryddion, Bedwyr Siencyn fel Ysgrifennydd, Luned Jones fel Trysorydd, Elen Madrun a Mari Gibbson fel Swyddogion y Wasg a Siôn Pennant fel ein Swyddog Cofid! Er mwyn cadw'r swyddogion mewn trefn, mynychodd nifer y noson 'Hyfforddiant Swyddogion Sirol' yn Neuadd Goffa Felin Fach ar y 1af a'r 2il o Fedi.

Rydym wedi cynnal nosweithiau wythnosol ers dechrau Medi yn yr awyr agored. I gychwyn, cafwyd noson hwyliog o 'Helfa Drysor'. Cafwyd sawl car llawn a gwelwyd rhyfeddodau megis bedd Taliesin, Pen Llŷn yn y machlud, dysgom sut i ddal gwybedyn a gafael mewn ysgall pigog ar gyfer y beirniaid a'r trefnwyr, Alwenna a Sara! Fe wnaeth pawb fwynhau'r wledd ar y diwedd yn y Llew Gwyn.

Yr wythnos ganlynol, aeth criw ohonom gyda Lowri a Sera ar daith gerdded drwy goed Penglais, heibio'r clwb golff a Chonsti gan orffen ar y prom yn Aberystwyth i gael llond bol o sglods. Golygfeydd a machlud godidog.

Yr wythnos ganlynol, cafwyd noson o hwyl a sbri yn 'Olympics' Talybont ar gaeau'r ysgol. Bydd ambell i dalent yn sicr o gyrraedd y gemau go iawn ym Mharis ymhen tair blynedd! Diolch i Sara a Siôn am drefnu!

I orffen y mis, cynhaliwyd Helfa GeoCache o gwmpas Tal-y-bont o dan arweiniad Siôn. Profiad newydd i lawer ohonom ond roedd y dortch a'r dillad glaw yn ddefnyddiol iawn yn ogystal â ffonau drudfawr er mwyn lawrlwytho'r ap android!

Bydd mis Hydref yn brysur wrth i ni gynnal rhagor o weithgareddau a pharatoi at Eisteddfod Clybiau'r Sir yn ystod yr hanner tymor ym Mhafiliwn y Bont. Diolch i bawb am drefnu nosweithiau difyr ym mis Medi a chofiwch fod croeso cynnes i unrhyw un rhwng 11 oed a 28 oed ymaelodi efo'n Clwb yn Nhal-y-bont - byddwn gan amlaf yn cwrdd wrth y Neuadd am 7.30yh bob nos Fawrth.

Elen Madrun

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



CHWARAEON

ArGRUFFiadau Gruff o'r Ras Fawr

Ar ôl iddo serennu yn y camal o'r Tour of Britain a aeth drwy dalgylch Papur Pawb roedd rhaid mynd i'w weld i gael ei arGRUFFiadau.

Ras o 850mlt mewn 8 cymal â dau ohonyn nhw yng Nghymru, sut aeth hi ar y cyfan? Wel ar ôl cael gwared ar byg yn y bol ar ôl tri diwrnod aeth pethau'n eitha da. Y pedwerydd diwrnod o Aberaeron i Landudno oedd y diwrnod cyntaf i mi deimlo'n dda ac felly amdani.

Ie ar y blaen drwy Ceredigion ond sut ffeindiest ti dy hunan ar y blaen? Roedd nifer da wedi gweld y rhiw allan o Aberarth fel sialens ond erbyn cyrraedd y top dim ond chwech oedd ar ôl felly bant â ni am Landudno!

Ond cawsoch chi'ch dal. Do siwr achos mae'r cant sydd yn y peloton yn gallu beicio'n gyflymach na'r criw bach ar y blaen. O ni'n neud yn dda tan Ysbyty Ifan ond erbyn Llanrwst roedd rhaid rhoi'r ffidil yn y to am y dydd a bod yn hapus gyda gorffen.

Mae'r rhai sy'n gwybod am y daith i gopa'r Gogarth yn Llandudno wrth ochr y tram yn ymwybodol o ba mor serth mae'r ffordd. Mae'r darn lan y rhiw yn Categori 1, sef y darn mwyaf serth mae beicwyr yn disgwyl cwrdd ar ddiwrnod normal.

Odd rhai yn gorfod cerdded lan? Na, does neb byth yn dod off y beic. Ti ddim yn rasio lan, ti'n mynd yn hamddenol. Ti'n gwobd ti ddim yn mynd i ennill ar y dydd felly pwyll piau. Deud y gwir roedd Cav (*Mark Cavendish y sprintiwr gorau yn y Tour de France eleni*) gyda fi wrth fynd rownd y Gogarth ac wrth ddringo i'r copa. Roedd e am ddysgu Cymraeg felly dysgais i 'shwmae' iddo. Ar ôl hynny roedd e'n gweiddi shwmae nerth ei ben i bawb ar ochr y ffordd! Mae e'n gymeriad ac yn llond llaw.

Felly gorffen yn Llandudno, cysgu'r nos a dechrau'r diwrnod wedyn yn Swydd Gaer. Na, teithio i yn Swydd Gaer ar ôl beicio 160mlt o Aberaeron! Dyna'r broblem. Dechrau yn Aberaeron ond cysgu'r noson y Skewen a dod lan ar y bws. Mae trosgwyddo o un man i'r llall yn gur pen. Nid y trefniadau gorau i feiciwr. Ac un arall, dad yn mynd â fi i ddechrau yn Penzance, grêt, ond gorfod dod adre ar y tren o Aberdeen!

Wel dyna'r trefniadau cysgu ond beth am y pethau eraill fel bwyd etc? Brecwast yn y gwesty wrth gwrs. Diet speisial o bethau fel spageti, reis, bananas, wyau a digon i yfed. Ti angen 1000calori bob awr felly digon o jels a tua 10litr o ddŵr mewn diwrnod. Mae be sy'n mynd mewn gorfod dod mâs! Say no more!!



Y Ddraig Goch yn dilyn Gruff drwy Maentwrog

Chi ar y beic drwy'r dydd ond chi ddim yn rasio drwy gydol yr amser. Na dyna pam on i'n gallu siarad gyda Cav. Ti'n gweld ni gyd yn gweithio i'r gorau yn y tîm. Ni'n cael ein galw yn domestiques sef y rhai sydd yn gwneud yn siwr bod y gorau yn y tîm yn hapus ac yn gyfforddus. Ni'n mynd i ôl bwyd iddo, nôl ei ddŵr, cadw cwmni iddo ar y rhiwau a'i gysgodi o'r gwynt. Nid fi sy'n mynd i ennill, fi yw'r gwas bach.

Ond roeddet ti ar y blaen wrth fynd heibio fi. Mae Ribble Weltite Pro Cycling yn hapus i fi fod ar y blaen achos fi'n hysbysebu nhw, dyna eu cyfle. Dwi'n hysbyseb grêt a dyna pam yr holl grysau lliwgar.

Roedd dy sanau pinc yn destun sbort ar y teledu! Roedd rheswm da dros y sanau, noddwyd y tîm i gofio un oedd wedi marw, na pam.

Wyth can milltir mewn wyth diwrnod, mae hynny'n galed iawn. Ydy ond roedd y cymal rhwng Carlisle a Gateshead yn galetach, tri Cat1 un ar ôl y llall! Ond ar ôl rasio yn Slofenia, Morocco a Norwy yn y blynyddoedd diwethaf dyna beth yw bywyd beiciwr proffesiynol. Dyna beth sy i ddisgwyl.

Oes rhai pethau yn aros yn y cof o'r Tour? Cwrdd ag Elin a Guto ar ben y Gogarth yn un ac wrth ddringo rhiw Penglais gweld Clwb Seiclo Ystwyth a Thîm Caffi Gruff yna'n cefnogi, ffantastig. Roedd y diwrnod yng Nghymru yn ddiwrnod braf a nifer o dalgylch Papur Pawb wedi dod allan i weld y ras. A fi? Roedd Cymru ar ei gorau hefyd, hysbys da i Hen Wlad fy Nhadau. Siwr ei bod hi wedi edrych yn wych ar y teledu.

Oedd wir a braf oedd clywed Yanto Barker yn dweud manau fel Dolgellau a Llanrwst yn gywir. Gruff oeddet ti ac nid y 'gruff' Saesneg. Diolch am fod mor fodlon rhoi dy amser i Bapur Pawb a phob lwc ti ar dy feic. Edrychwn ymlaen i glywed mwy o dy hanes.



Sbosib bod ti'n bwyta hufen â ganol ras! Na hufen â i Elin a Guto ond pop-loli i mi!

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

Golff

Llongyfarchiadau i Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont, a enillodd, gyda'i phartner golff, Jeff Evans, gwpan Ashley Jones ar 11 Medi ar gwrs golff Borth ac Ynyslas. Roedd eu sgôr Stableford o 44 pwynt ymhell ar y blaen i'r cystadleuwyr eraill. Fel mae'n digwydd, mae'r ddau yn gapteiniaid y clwb eleni.

